# PAPURAU BUSNES

# RHAN 1 – ADRAN F

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 2 Tachwedd 2000

# i'w hateb ar 16 Tachwedd 2000

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

W Yn dynodi bod yr Aelod wedi gofyn cwestiwn yn Gymraeg

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Chymunedau ar Cymunedau

1. **Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff hi egluro pam nad yw Cyngor Sir Ceredigion yn gymwys i dderbyn cymorth cyfamserol i gyfyngu ar godiadau yn nhreth y cyngor. (OAQ7788)
2. **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ar bolisi'r weinyddiaeth ar osod gwres canolog drwy gynlluniau prydles. (OAQ7792) [R]
3. **Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ar ailddatblygu cymunedau yn Abertawe. (OAQ7862)
4. **Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A wnaiff hi ddatganiad ar hynt yr undebau credyd yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf. (OAQ7763)
5. **Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff hi amlinellu polisi'r weinyddiaeth i fynd i'r afael â'r gwaith atgyweirio tai sydd wedi cronni yng Nghymru. (OAQ7789) [R]
6. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A yw'r weinyddiaeth yn bwriadu cynnig gosod gwres canolog am ddim i'r bobl hynny sy'n dioddef o dlodi tanwydd. (OAQ7784)
7. **Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i ddatrys problem tai o safon isel yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (OAQ7754)
8. **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A all y Gw**einidog sicrhau'r Cynulliad Cenedlaethol bod digon o adnoddau ar gael i gwblhau'r cynllun Effeithlon**rwydd Ynni yn y Cartref yn effeithiol. (OAQ7791) [R]
9. **Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa ganllawiau a roddwyd i gynghorwyr ynghylch cyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau ar safonau ymddygiad. (OAQ7845)
10. **Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Sut mae'n bwriadu annog llywodraeth leol yng Nghymru i fod yn agored ac yn atebol. (OAQ7756)

11. **Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth sy'n cael ei wneud i leihau effeithiau tai o safon wael fel ffactor sy'n cyfrannu at eithrio cymdeithasol. (OAQ7859)
12. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff hi ddatganiad ar rôl y Cynghorau Cymuned yn y dyfodol. (OAQ7794)
13. **David Davies (Mynwy);** A wnaiff hi sylw ar y cynigion i roi'r gorau i eithrio tai myfyrwyr o orfod talu treth y cyngor. (OAQ7762)
14. **William Graham (Dwyrain De Cymru);** A all hi wneud sylw ar y gwendidau y cafwyd sôn bod cynigion 'Gwerth Gorau' pob un o Awdurdodau Lleol Cymru yn dioddef ohonynt. (OAQ7849)
15. **Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Sut mae hi'n annog partneriaid mewn llywodraeth leol, busnesau a'r sector gwirfoddol i hyrwyddo egwyddorion cyfle cyfartal. (OAQ7753)**TYNNWYD YN OL**
16. **Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddi i adolygu'r systemau etholiadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol. (OAQ7795)
17. **Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff hi esbonio sut y dewiswyd y tri chyngor sy'n gymwys am y cymorth trosiannol i gyfyngu ar unrhyw gynnydd yn nhreth y cyngor ac a enwyd yn y ddadl ar 31 Hydref. (OAQ7786) [R]
18. **Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A wnaiff hi ddatganiad ar y trafodaethau a gafodd gydag Awdurdodau Lleol i ystyried dulliau pleidleisio eraill, gan gynnwys pleidleisio dros y ffôn a'r Rhyngrwyd, fel cyfrwng i wneud pleidleisio'n haws a chynyddu'r nifer sy'n bwrw'u pleidlais mewn etholiadau lleol yng Nghymru. (OAQ7804)
19. **William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ar y modd y mae'r 'dull Cabinet' wedi'i roi ar waith mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru. (OAQ7848)
20. **Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw ei pholisi mewn perthynas â grantiau tai cymdeithasol ar gyfer datblygiadau y gwrthodwyd caniatâd cynllunio iddynt ac sydd bellach yn destun apêl. (OAQ7807)
21. **Lynne Neagle (Tor-faen);** Sut bydd y Gweinidog yn sicrhau bod y Rhaglen 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' yn targedu cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. (OAQ7798)
22. **David Davies (Mynwy);** Pa gynlluniau sydd ganddi i newid amseriad etholiadau Llywodraeth Leol. (OAQ7761)
23. **Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut mae hi'n bwriadu sicrhau bod gweithredu ar gyfiawnder yr ifainc a chamddefnyddio sylweddau yn cael eu cynnwys yn agenda 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf'. (OAQ7808)
24. **Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A oes gan y weinyddiaeth gynlluniau i gydgysylltu'r ystod o brosiectau adfywio cymunedol sydd yn awr yn cael eu cynnig. (OAQ7787) [R]
25. **Brian Gibbons (Aberafon);** A wnaiff hi ddweud beth yw'r diweddaraf am 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf'. (OAQ7759)
26. **Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddi i ddatblygu cynghorau cymuned yng Nghymru. (OAQ7796)
27. **Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Wrth benderfynu galw ceisiadau cynllunio i mewn, a oes asesiad yn cael ei wneud o effaith economaidd hynny ar fusnesau lleol. (OAQ7857)
28. **Lyne Neagle (Tor-faen);** Sut bydd y Gweinidog yn hybu trefniadau cyfranogi i

denantiaid yng Nghymru. (OAQ7799)

29. **Mick Bates (Maldwyn);** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i gyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer Llywodraeth Leol ers arwyddo'r Cytundeb Partneriaeth. (OAQ7801)
30. **Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro);** A all hi wneud datganiad ar sut y mae llywodraeth leol yn gwneud lles anifeiliaid yn ffactor y mae'n rhaid ei hystyried wrth drwyddedu gerddi swolegol. (OAQ7758)**TYNNWYD YN OL**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

1. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Beth mae hi'n ei wneud i annog prosiectau ynni cynaliadwy i ymgeisio am arian amcan un. (OAQ7855)
2. **Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa fesurau sydd yn eu lle i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. (OAQ7830)
3. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael yn ddiweddar gyda grwpiau beicio yng Nghymru ynghylch datblygu llwybrau beicio. (OAQ7862)
4. **Brian Hancock (Islwyn);** I wneud datganiad ynghylch targedau ailgylchu yng Nghymru. (OAQ7825)
5. **Gareth Jones (Conwy);** A yw wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Railtrack ynghylch datblygu Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru. (OAQ7828)
6. **Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff y Gweinidog egluro'r sefyllfa ddiweddaraf o ran Strategaeth Rheoli Gwastraff y Cynulliad. (OAQ7812)
7. **Janice Gregory (Ogwr);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ymgynghori â'r DETR ar fater oriau gwaith annerbyniol o hir gyrwyr proffesiynol yng Nghymru. (OAQ7768)
8. **Helen Mary Jones (Llanelli);** I wneud datganiad ar ymrwymiad y Llywodraeth i ynni cynaliadwy yng Nghymru. (OAQ7837)
9. **Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddi i wneud pobl Cymru'n fwy ymwybodol o lifogydd a'u heffeithiau. (OAQ7775)
10. **Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Pa gynlluniau sydd yn eu lle i leihau'r nwyon ty gwydr sy'n cael eu rhyddhau yng Nghymru. (OAQ7834)
11. **Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A oes ganddi unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r canllawiau cynllunio ar gyfer gorlifdiroedd. (OAQ7772)
12. **Peter Law (Blaenau Gwent);** A wnaiff hi roi ei chefnogaeth lawn i'r cynllun i ailagor y gwasanaeth rheilffordd i deithwyr rhwng Glyn Ebwy/Abertyleri a Chaerdydd/Casnewydd. (OAQ7766)
13. **Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Faint o arian sydd ar gael ar gyfer y grant trafnidiaeth i wella ffyrdd yn ystod y tair blynedd nesaf. (OAQ7814) **[R]**
14. **Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro);** A all wneud datganiad

ynghylch nifer y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd yng Nghymru. (OAQ7776)**TYNNWYD YN OL**

15. **Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin);** I wneud datganiad ynghylch i ba raddau y mae’r Datblygu Cynaliadwy yn cyflawni’r targedau rhyngwladol cyffredinol. (OAQ7852)
16. **Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Sut y bydd hi'n annog mwy o bobl i deithio ar fysiau yng Nghymru. (OAQ7774)**TYNNWYD YN OL**
17. **Brian Hancock (Islwyn);** A wnaiff ddatganiad ar lefel y llygredd ym Mae Caerdydd. (OAQ7833)
18. **Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff ddatganiad am y camau a gymerwyd o safbwynt Rheilffordd Arfordirol Gogledd Cymru. (OAQ7827)
19. **Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad byr am unrhyw ddatblygiadau wrth baratoi Strategaeth Gwastraff. (OAQ7841)
20. **Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gynlluniau sydd dan ystyriaeth i wella darpariaeth cludiant cyhoeddus yn ardal Bae Caerdydd. (OAQ7819) W
21. **William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch mesurau atal llifogydd yng Nghymru. (OAQ7853)
22. **Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa amserlen y mae'n ei rhagweld er mwyn prosesu'r grant trafnidiaeth yn 2001-2002. (OAQ7815) R
23. **Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff datganiad ynghylch ceisiadau cynllunio i godi mastiau ffôn poced. (OAQ7842)
24. **Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A oes cynlluniau brys i sicrhau bod tanwydd yn cael ei gyflenwi yng Nghymru. (OAQ7829)
25. **David Davies (Mynwy);** Beth y mae'n ei wneud i annog mwy o ddefnydd o'r rheilffyrdd wrth gludo nwyddau fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Integredig. (OAQ7778)
26. **Geraint Davies (Rhondda);** Pa fesurau sydd ar y gweill er mwyn lleihau oedi ar y rhwydwaith trafnidiaeth o ganlyniad i dywydd garw. (OAQ7831)
27. **Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff hi ddatganiad am unrhyw drafodaethau a gafodd gyda Railtrack ynghylch cyflwr traciau yng Nghymru. (OAQ7779)
28. **Dafydd Wigley (Caernarfon**); Pa drafodaethau a gafodd gyda Railtrack ynghylch yr angen i wella cyflwr traciau yng Nghymru. (OAQ7780)
29. **Alison Halford (Delyn);** A wnaiff ddatganiad am gost gwella trafnidiaeth rhwng y de a'r gogledd a nodir yn yr Astudiaeth o Gysylltiadau Trafnidiaeth rhwng Gogledd a De Cymru, Mai 2000. (OAQ7770)
30. **Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Pa gynlluniau sydd ganddi i wella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. (OAQ7773)**TYNNWYD YN OL**